| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | gwerthfawrogi ac yn defnyddio data mewn modd effeithiol i wella gwasanaethau a chanlyniadau. | gedwir mewn adrannau unigol. Bydd datblygu dull mwy unedig a chorfforaethol o ddefnyddio data yn helpu i ehangu buddion penderfyniadau sydd wedi'u seilio ar ddata i'r holl feysydd gwasanaeth. Bydd yn hanfodol newid y diwylliant er mwyn gwneud hyn a safoni, symleiddio ac integreiddio data. I ddechrau'r broses hon, dylai'r Awdurdod gynnal archwiliad data sy'n canolbwyntio ar fapio pa ddata sydd gan bwy, at ba ddiben a sut y defnyddir y data. Mae ymatebwyr i'r offer data yn cydnabod y gall GDPR helpu yn hyn o beth ond y cedwir data mewn gwahanol ffurfiau ar draws y sefydliad ar hyn o bryd, sydd wedi arwain at systemau anghydnaws a pherchnogaeth wasgaredig ar setiau data amrywiol.<br>C2 Mae'r Awdurdod yn casglu data mewn bron pob achos o ryngweithio â'i ddinasyddion, boed mewn cyfarfodydd, dros y ffôn neu ar y cyfryngau cymdeithasol ac mae angen iddo sicrhau ei fod yn parhau i ddiogelu'r wybodaeth sydd |

| Dyddiad cyhoeddi | Disgrifiad byr | Casgliadau | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|---|---|
| | | | ganddo a hefyd gwneud y defnydd gorau o'r data hyn. Bydd diweddaru gweithdrefnau rhannu data a sicrhau y cânt eu cyfleu i'r holl swyddogion perthnasol trwy hyfforddiant diweddaru – gan ganolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud – yn helpu i sicrhau bod rheolwyr gwasanaethau yn gwybod beth y gallant ei rannu a phryd, gan helpu i osgoi unrhyw gamau diangen ac anghymesur i atal risg wrth rannu data.<br>C3 Mae sicrhau adnoddau priodol a chapasiti digonol yn heriau parhaus i bob awdurdod lleol. Yn Sir Ddinbych, mae cyfran sylweddol o uwch swyddogion a ymatebodd i'n hoffer data o'r farn nad yw'r Awdurdod wedi buddsoddi digon o arian i ddadansoddi data yn effeithiol. Heb uwchsgilio staff i wneud gwell defnydd o ddata, gall yr Awdurdod golli cyfleoedd i wella ei effeithlonrwydd a'i effeithiolrwydd yn y tymor hir. Bydd buddsoddi i wneud gwell defnydd o ddata yn arwain at well canlyniadau i ddinasyddion ac at arbedion |

